

## Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Ein enw:- Rebecca Williams

Sefydliad (os yw'n berthnasol):- UCAC (Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru)

E-bost/rhif ffôn:- [rebecca@ucac.cymru](mailto:rebecca@ucac.cymru)

Eich Cyfeiriad:- UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY24 5EY

### Cwestiynau'r Ymgynghoriad:

- **Ydych chi'n cytuno â'n cynigion ar gyfer meithrin dealltwriaeth a gallu ariannol?**

#### Ydyn

Rhowch resymau:

Mae UCAC yn cydsynio â'r ddogfen ymgynghorol ynghylch phwysigrwydd meithrin y dealltwriaeth a'r galluoedd hyn ar gyfer dyfodol plant a phobl ifanc Cymru, a'u teuluoedd.

Cytunwn y dylai unrhyw ddatblygiad ar y ddarpariaeth gyfredol fod yn rhan o ddiwygio'r Cwricwlwm, dan y broses Donaldson/Dyfodol Llwyddiannus. Mae hynny'n cynnig cyfle perffaith i ddiwygio a diweddarau ar adeg pan fydd newidiadau'n digwydd ta beth, a phan fydd darpariaeth ar gyfer hyfforddiant ar gyfer y gweithlu (dan y Fargen Newydd, ac unrhyw newidiadau i Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon dan y broses Furlong/Addysgu Athrawon Yfory).

Mae ymatebion i ymgynghoriadau'n debygol o fod ar gael i'r cyhoedd, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Ticiwch yma os byddai'n well gennych i'ch ymateb fod yn ddienw